



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Bro Dewi
Stryd Non
Tyddewi
Hwlfordd
Sir Benfro
SA62 6NU**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|-------------------|--|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/11/2014

Cyd-destun

Ysgol wirfoddol a gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru yn ninas gadeiriol Tyddewi yn Sir Benfro yw Ysgol Bro Dewi. Mae 98 o ddisgyblion tair i 11 oed yn yr ysgol, gan gynnwys 10 o blant yn y feithrinfa. Ceir tri dosbarth oeddrannau cymysg ac un dosbarth un oedran.

Ar hyn o bryd, mae 5% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yn yr awdurdod lleol ac yng Nghymru.

Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 18% o'r disgyblion, gan gynnwys dau ddisgybl sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Disgrifir yr ysgol gan yr awdurdod lleol fel ysgol cyfrwng Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Daw bron pob un o'r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith. Ychydig iawn sy'n dod o gartrefi Cymraeg. Nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig neu sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Ym mis Hydref 2008 y cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2013.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Dewi yn 2014-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,359 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £6,240 a'r lleiafswm yw £3,570. Mae Ysgol Bro Dewi yn safle 22 o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

| | |
|---------------------------------------|----------------|
| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- mae safonau siarad a gwranddo yn dda;
- mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yn dda;
- mae staff yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion;
- mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, sy'n gwerthfawrogi ei disgyblion yn fawr ac yn eu cefnogi'n dda; ac
- mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol ag ystod dda o bartneriaid.

Fodd bynnag:

- dros y pedair blynedd diwethaf, nid yw perfformiad disgyblion yn cymharu'n dda â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg;
- nid yw llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu estynedig a rhifedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm; ac
- nid yw cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi'i ymgorffori'n llawn.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel gan y pennaeth sydd wedi'u cyfleu'n llwyddiannus i staff a llywodraethwyr;
- mae dealltwriaeth gywir gan arweinwyr o gryfderau'r ysgol a'u meysydd i'w gwella;
- mae blaenoriaethau gwella yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella lles disgyblion; ac
- mae strategaethau cadarn wedi'u rhoi ar waith i wella ymddygiad a phresenoldeb.

Fodd bynnag:

- nid yw strategaethau gwella wedi effeithio'n llawn eto ar godi safonau cyffredinol;
- nid yw mentrau diweddar wedi sicrhau bod ansawdd addysgu ac asesu yn gyson dda ym mhob un o'r dosbarthiadau;
- nid yw arweinwyr bob amser yn arfarnu effaith mentrau newydd yn ddigon effeithiol i sicrhau gwelliant cyson mewn safonau; ac
- megis dechrau y mae rôl y corff llywodraethol o ran herio'r ysgol.

Argymhellion

- A1 Codi safonau ym medrau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws y cwricwlwm
- A2 Sicrhau parhad a dilyniant wrth ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm
- A3 Sicrhau bod cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi'i ymgorffori'n llawn
- A4 Sicrhau bod yr holl addysgu yn bodloni anghenion disgyblion o bob gallu, yn enwedig y rhai mwy abl
- A5 Sicrhau bod gweithdrefnau marcio yn gyson ar draws yr ysgol fel bod disgyblion yn gwybod sut i wella'u gwaith
- A6 Sicrhau bod yr arfarniad o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella yn canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau disgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae asesiad gwaelodlin yr ysgol yn dangos bod gan lawer o ddisgyblion wybodaeth, dealltwriaeth a medrau ar y lefel a ddisgwyllir neu uwchlaw'r lefel a ddisgwyllir am eu hoed wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda o gymharu â'u cyfoedion mewn ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw disgyblion o allu uwch, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen, yn cyflawni gystal ag y gallent bob amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n effeithiol ag oedolion a'i gilydd. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn hyderus i gwestiynau a chyfarwyddiadau. Maent yn awyddus i siarad am eu gwaith, a bydd llawer ohonynt yn defnyddio geirfa aeddfed pan fyddant wrthi'n dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus mewn ystod eang o sefyllfaoedd â staff, ymwelwyr ac â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n effeithiol mewn gwersi ac yn defnyddio'u medrau iaith yn dda i roi esboniadau clir. Ar draws yr ystod oedran, mae llawer o ddisgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn dda, a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol mewn gwersi i ddysgu gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf yn gallu parhau i ganolbwyntio am gyfnodau amser priodol mewn gwersi.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn dda yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau gwrando ar straeon ac ymunant yn frwdfrydig mewn rhigymau a chaneuon. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gwybodaeth dda am seiniau llythrennau gan y rhan fwyaf, a defnyddiant y wybodaeth hon yn briodol i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Mae ychydig o ddisgyblion yn dechrau defnyddio ystod ehangach o strategaethau addas i ddarllen testunau anghyfarwydd yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod briodol o destunau yn rhugl ac yn gywir, a gyda mynegiant da. Mae'r rhan fwyaf yn dweud beth sydd orau ganddynt o ran y math o lyfr y byddant yn ei fwynhau fwyaf. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio cyfeirlyfrau yn hyderus, ac yn defnyddio tudalennau mynegai a chynnwys yn gywir i ddod o hyd i wybodaeth am bynciau penodol mewn cyfeirlyfrau. Mae'r mwyafrif yn defnyddio medrau darllen lefel uwch fel brasddarllen testun yn dda i gael gwybodaeth i gefnogi eu gwaith mewn pynciau eraill.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno'u gwaith ysgrifenedig yn daclus. Maent yn dechrau defnyddio atalnodi syml yn rhesymol o gywir. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n briodol at ystod o ddibenion, er enghraifft wrth ysgrifennu gweddi, ailadrodd stori gyfarwydd neu gyfansoddi llythyr. Mae ychydig iawn yn ysgrifennu darnau ysgrifenedig estynedig yn annibynnol ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion o bob

gallu gyfleu ffeithiau a gwybodaeth mewn amryw o ffurfiau. Mae gwaith ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn drefnus a diddorol. Defnyddiant atalnodi yn briodol, ac mae eu sillafu yn gywir ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw cyflwyniad gwaith y disgyblion o safon dda bob amser. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n hyderus ac yn gywir mewn amryw o ffurfiau, ac yn aml mae eu hysgrifennu'n feddylgar ac yn llawn dychymyg, er enghraifft, wrth addasu storïau o ddiwylliannau gwahanol. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion sy'n cyfnerthu ac yn ymestyn eu medrau ysgrifennu'n ddigonol i gynhyrchu darnau ysgrifennu estynedig o ansawdd da ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol mewn datblygiad mathemategol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf ohonynt o fondiau rhif i ddeg, a gallant drefnu rhifau hyd at 20 o leiaf. Mae llawer ohonynt yn adio a thynnu rhifau i 10 yn gywir. Maent yn dechrau defnyddio mesurau safonol ar gyfer hyd yn fwyfwy cywir. Mae llawer ohonynt yn casglu ac yn cyflwyno data gan ddefnyddio graffiau bar syml yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau da mewn gwersi mathemateg. Maent yn deall gwerth lle ac yn datblygu ystod o strategaethau i ddatrys problemau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno gwybodaeth a chanlyniadau'n systematig, er enghraifft mewn gwyddoniaeth. Maent yn defnyddio ac yn dehongli symbolau a diagramau mathemategol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn gyson mewn meysydd dysgu eraill ar lefel ddigon uchel, o gymharu â'u gwaith mewn mathemateg.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da o ran dysgu Cymraeg, a dangosant agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith. Cynhelir y cynnydd hwn drwy gyfnod allweddol 2. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn awyddus i siarad am ddiddordebau personol, a chynigiant resymau cynhwysfawr am beth maent yn eu hoffi neu ddim yn ei hoffi. Mae medrau darllen Cymraeg ail iaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio cystrawen weddol gymhleth yn eu gwaith ysgrifenedig.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion o ran y deilliant 5 disgwylidig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi codi a gostwng. Mae perfformiad mewn llythrennedd wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 25% uchaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad o ran y lefel 4 ddisgwylidig mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn 2014 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y 50% is mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. O ran perfformiad mewn gwyddoniaeth, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad o ran y deilliant uwch na'r disgwyl (deilliant 6) yn y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mewn datblygiad

mathemategol, mae perfformiad wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% isaf a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 2 ym mhob un o'r tri phwnc, ar y lefel uwch na'r disgwyl, wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Lles: Da

Mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o sut i gadw'n iach drwy fwyta diet cytbwys a gwneud digon o ymarfer corff. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd y staff yn delio'n brydlon ag unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae llawer ohonynt yn llawn cymhelliant, yn canolbwyntio ar eu gwaith ac yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Fodd bynnag, mae ymddygiad nifer fach iawn o ddisgyblion yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill mewn lleiafrif o wersi. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o'u cryfderau a'u gwendidau trwy gynyddu eu cyfranogiad mewn asesu, cytuno ar feini prawf llwyddo a gosod targedau personol.

Fe wnaeth gweithdrefnau trwyadl a roddwyd ar waith i wella presenoldeb sicrhau bod cyfradd bresenoldeb gyffredinol yr ysgol wedi gwella'n sylweddol yn 2013-2014. Roedd cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Caiff cyngor yr ysgol a'r grŵp eco eu cynnwys yn briodol ym mhroses benderfynu'r ysgol. Teimlant fod y staff yn gwerthfawrogi eu barnau a'u bod yn gwrandao arnynt. Mae'r aelodau yn cael eu cynnwys yn weithredol i nodi a hyrwyddo gweithgareddau i gefnogi ystod o elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae bron pob disgybl o bob oed yn chwarae'n hapus â'i gilydd amser egwyl ac amser cinio. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos parch, cwrteisi ac ystyriaeth i'w gilydd ac i oedolion. Drwy weithgareddau cwricwlaid a gweithgareddau ysgol eraill, ac yn arbennig y clybiau ar ôl ysgol y mae niferoedd da yn eu mynychu, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael ystod dda o fedrau cymdeithasol a medrau bywyd, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

| | |
|--|----------------|
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|--|----------------|

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o brofiadau dysgu sydd, yn gyffredinol, yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2. Mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn dda o amgylch ystod o themâu a thestunau diddorol. Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn addas ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o weithgareddau yn bodloni anghenion mwyafrif o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi coleddu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn llawn ym mhob maes dysgu. Cyfyngedig yw cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau a datblygu fel dysgwyr annibynnol, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau awyr agored.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas tuag at gyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Mae cynllunio tymor byr yn darparu cyfleoedd priodol i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn ystod gwersi Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'r medrau hyn yn systematig ar draws y cwricwlwm, wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae cyfleoedd yn anghyson i ddisgyblion ysgrifennu darnau gwaith creadigol ac estynedig.

Mae cynlluniau a darpariaeth athrawon ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd yn effeithiol. Mewn mwyafrif o ddsbarthiadau, fodd bynnag, nid yw profiadau dysgu bob amser yn cynnig digon o her, yn enwedig i ddisgyblion mwy abl.

Cynigir cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mae pob un o'r athrawon yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gydol y dydd, ac mae disgyblion yn ymateb yn hyderus ac yn frwd. Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae'r ysgol wedi sefydlu agwedd gadarnhaol tuag at Gymru a'r Gymraeg. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn ailgylchu deunyddiau gwastraff yn rheolaidd. Mae parchu amlddiwylliannaeth, hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cadarn o ddiwylliant yr ysgol.

Addysgu: Digonol

Mae gwybodaeth bynciol gyfoes gan bob un o'r athrawon. Maent yn fodolau iaith da i ddisgyblion, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio techneg holi fedrus i helpu disgyblion i ddeall ac i ddatblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae staff cymorth yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon yn fedrus a chyfrannant yn effeithiol at ddysgu disgyblion.

Ym mwyafrif y dosbarthiadau, lle mae ansawdd yr addysgu yn fwyaf effeithiol, mae amcanion dysgu clir gan athrawon ac maent yn rhannu'r rhain yn dda gyda disgyblion i roi diben clir i'r dysgu. Yn y gwersi hyn, mae cyflwyniadau'n fywiog ac yn bwrpasol ac mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau yn dda. Mae athrawon yn cydweddu tasgau'n briodol â galluoedd gwahanol disgyblion ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu cymell a'u herio. Defnyddiant ystod briodol o adnoddau ac maent yn rheoli ymddygiad yn dda. Mewn lleiafrif o ddsbarthiadau, fodd bynnag, lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r amcanion dysgu yn glir ac nid yw'r tasgau dysgu bob amser yn herio disgyblion o bob gallu yn ddigonol, yn enwedig y rhai mwy abl. O ganlyniad, mae cyflymder y dysgu yn araf ac nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu'u medrau dysgu annibynnol.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi adborth cadarnhaol ar eu cyflawniadau. Fodd bynnag, mae ansawdd y marcio'n anghyson ac nid yw bob amser yn ddigon manwl i sicrhau bod disgyblion yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Nid yw lleiafrif o athrawon bob amser yn cysylltu eu marcio â thargedau unigol, amcanion dysgu neu feini prawf llwyddo disgyblion.

Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol gan yr ysgol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion, ac yn ddiweddar mae wedi sefydlu system olrhain ysgol gyfan. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da eto i gefnogi cynlluniau yn gyson i fodloni anghenion pob dysgwr. Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau athrawon.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion asesu'u gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn datblygu'n briodol, ac maent yn dechrau cael effaith ar ddysgu a deilliannau disgyblion. Fodd bynnag, dim ond mewn lleiafrif o wersi y mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn nodwedd dda.

Mae rhieni'n cael gwybodaeth eglur am gyflawniadau eu plant drwy adroddiadau diwedd blwyddyn a chyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Ceir darpariaeth o ansawdd da ar gyfer datblygiad iechyd, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, ac mae'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn o ran eu lles. Mae gweithredoedd cydaddoli yn cynnwys ffocws clir ar werthoedd a chredoau ysgol gyfan, ac maent yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrion ar faterion moesol ac ysbrydol.

Mae polisïau a threfniadau priodol gan yr ysgol ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles disgyblion. Yn ddiweddar, mae wedi sefydlu trefniadau priodol i ddelio ag unrhyw ymddygiad afreolus. Mae'r ysgol wedi rhoi ystod o strategaethau effeithiol ar waith i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd. Mae'r rhain wedi cael effaith sylweddol ar wella lefelau presenoldeb.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion weithio ar y cyd, ac o ganlyniad, maent yn gweithio'n dda â'i gilydd mewn grwpiau.

Mae system glir a reolir yn dda gan yr ysgol ar gyfer nodi anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn darparu cymorth effeithiol ac yn defnyddio ystod eang o raglenni ymyrraeth priodol i gynorthwyo'r disgyblion hyn. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o gynlluniau unigol a chynlluniau addysgol disgyblion i osod targedau clir, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion a'u rhieni.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o ystod o wasanaethau cymorth perthnasol. Mae'n gweithio'n effeithiol â'r athro cymorth ymddygiad a seicolegwyr addysgol i ddarparu cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion. Mae ychydig o ddisgyblion yn elwa'n sylweddol ar ymyrraeth effeithiol y gwasanaeth lleferydd ac iaith.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun unrhyw bryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae staff yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o ofal, cynhwysiant a pherthyn ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Mae'n gymuned hapus gydag awyrgylch teuluol lle mae mynediad cyfartal gan bob disgybl at y ddarpariaeth. Mae ethos cadarnhaol yr ysgol yn annog disgyblion i ddangos parch, gofal a phryder tuag at ei gilydd a'r gymuned ehangach.

Mae'r adeilad o safon dda ac yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion. Mae'n ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac yn cynnig amgylchedd trefnus sy'n cefnogi dysgu'n dda. Ceir digon o offer ac adnoddau o ansawdd da yn yr ystafelloedd dosbarth sy'n cyfateb yn dda i anghenion disgyblion. Mae arddangosfeydd lliwgar a diddorol ar draws yr ysgol yn adlewyrchu medrau a chyflawniadau disgyblion.

Mae gan y safle dir helaeth sy'n cynnwys offer da, ac mae'n cynnig adnodd dysgu gwerthfawr i ddisgyblion. Mae staff yn gwneud defnydd arbennig o dda o'r ardal awyr agored i ddarparu gweithgareddau allgyrsiol ysgogol a heriol sy'n gwella dysgu a lles disgyblion yn llwyddiannus.

| | |
|--|----------------|
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|--|----------------|

Arweinyddiaeth: Digonol

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth sy'n canolbwyntio ar godi safonau a gwella lles disgyblion. Mae wedi nodi blaenoriaethau pwysig ar gyfer gwella, ac yn llwyddo i gyfleu'r blaenoriaethau hyn i staff a llywodraethwyr.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob un o'r staff ac yn mynd i'r afael â thanberfformio'n gadarn. Mae'r gweithdrefnau monitro effeithiol a roddwyd ar waith gan y pennaeth ers ei phenodi yn dechrau cael effaith ar ddeilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae gan bob aelod o staff swydd-ddisgrifiadau sy'n adlewyrchu eu rolau a'u cyfrifoldebau yn gywir. Mae staff yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn ddyfal. Mae'r system rheoli perfformiad yn addas ac mae trefniadau priodol ar waith i fonitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu ym mhob dosbarth yn ffurfiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael effaith gyson ar wella medrau ac arferion asesu athrawon.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw addas i lawer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r mentrau wedi cael effaith lawn ar safonau eto. Nid yw cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi'i ymgorffori'n llawn yn yr ysgol eto.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol o waith yr ysgol, maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Cânt adroddiadau manwl gan y pennaeth ac maent yn gwybod yn drwyadl beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae dealltwriaeth gadarn gan y llywodraethwyr o sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â pherfformiad ysgolion tebyg eraill. Megis dechrau cael ei datblygu y mae eu rôl yn herio'r ysgol a'i dwyn i gyfrif.

Gwella ansawdd: Digionol

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu. Yn y misoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran nifer o fentrau, er nad ydynt wedi cael digon o effaith eto ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth yn gyffredinol.

Mae'r gweithdrefnau yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys dadansoddi perfformiad disgyblion, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau ac archwiliadau allanol. Cynhwysir pob athro wrth fonitro darpariaeth a safonau, ac mae eu harfarniadau'n cyfrannu at nodi meysydd y mae angen eu gwella. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion, llywodraethwyr a rhieni i fynegi'u barnau ynglŷn â gwaith a bywyd yr ysgol. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi cyfrif cywir a manwl o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'r deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu yn llywio cynllun gwella'r ysgol yn briodol. Mae'r cynllun gwella yn cynnwys nifer o flaenoriaethau hydrin sy'n canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Ceir meini prawf llwyddo clir, ac maent wedi'u gosod o fewn graddfeydd amser realistig. Mae gan athrawon a llywodraethwyr rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u dirprwyo'n briodol ar gyfer gweithredu a monitro'r cynllun. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn arfarnu effaith mentrau newydd yn ddigon effeithiol i sicrhau gwelliant cyson mewn safonau.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid a chaiff hyn effaith fuddiol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae rhieni yn gefnogol i'r ysgol ac mae'r ysgol yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau. Mae nifer sylweddol o rieni yn gwirfoddoli i arwain clybiau ar ôl ysgol. Cynigiant ystod eang o arbenigedd i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion, gan gynnwys medrau cyfathrebu heb fod ar lafar, a medrau technoleg rheoli. Mae gwirfoddolwyr o'r gymuned leol yn ymwelwyr cyson â'r ysgol. Gwnânt gyfraniad sylweddol at ddysgu disgyblion drwy wrando ar ddarllenwyr a chefnogi gweithgareddau grŵp bach yn yr ystafelloedd dosbarth.

Mae partneriaethau â'r teulu o ysgolion lleol yn gynhyrchiol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Er enghraifft, mae'r teulu o ysgolion yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd i fodloni gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.

Mae trefniadau pontio addas gyda'r ysgol uwchradd leol yn sicrhau bod disgyblion yn hyderus i symud ymlaen i gyfnod nesaf eu haddysg. Un cryfder arbennig yw rhannu adnoddau i sicrhau bod disgyblion sy'n agored i niwed yn cael cymorth da. Mae gweithdrefnau clwstwr ar gyfer safonai a chymedroli gwaith disgyblion wedi'u sefydlu'n dda ac yn cynorthwyo i asesu gwaith disgyblion yn briodol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol i gefnogi dysgu a lles disgyblion.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda. Mae'r pennaeth a phwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn cynllunio gwariant yr ysgol yn ofalus. Mae dyrannu adnoddau ariannol yn bodloni'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol. Defnyddir cyllid y grant amddifadedd disgyblion yn dda i fodloni anghenion penodol grŵp o ddisgyblion dynodedig.

Mae gan yr ysgol lefel dda o staff â chymwysterau addas, ac mae'n defnyddio'u harbenigedd yn dda i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae trefniadau rheoli perfformiad cadarn yn nodi cyfleoedd addas ar gyfer anghenion datblygu a hyfforddi'r rhan fwyaf o athrawon. Mae'r ysgol yn datblygu'n briodol fel cymuned ddysgu ac mae athrawon yn cyfranogi'n effeithiol mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill.

Ceir adnoddau da yn yr ysgol ac mae'r amgylchedd dysgu yn olau ac ysgogol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynllunio'n ddigonol bob amser i sicrhau bod yr holl ardaloedd, yn enwedig yr awyr agored, yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi dysgu.

O ystyried y safonau y mae'r disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6683310 - Ysgol Bro Dewi Church in Wales VA

| | |
|---|-----------------|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 110 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.1 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

Cyfnod Sylfaen

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|--|------|-------|------|
| Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2 | 15 | 10 | 15 |
| Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%) | 80.0 | 100.0 | 86.7 |
| Chwarter meincnod | 3 | 1 | 3 |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE) | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 10 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 100.0 | 86.7 |
| Chwarter meincnod | 4 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.7 | 20.0 | 53.3 |
| Chwarter meincnod | 3 | 4 | 1 |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW) | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwarter meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwarter meincnod | * | * | * |
| Datblygiad mathemategol (MDT) | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 10 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.3 | 100.0 | 93.3 |
| Chwarter meincnod | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 20.0 | 40.0 |
| Chwarter meincnod | 1 | 3 | 2 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD) | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 10 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.3 | 100.0 | 93.3 |
| Chwarter meincnod | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 40.0 | 60.0 |
| Chwarter meincnod | 3 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhliith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhliith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6683310 - Ysgol Bro Dewi Church in Wales VA

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 110
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 10.1
 Grŵp PYD 2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod allweddol 2

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|-------|-------|------|-------|
| Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6 | 12 | 21 | 12 | 11 |
| Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%) | 83.3 | 100.0 | 83.3 | 90.9 |
| Chwarterl meincnod | 3 | 1 | 3 | 3 |
| Saesneg | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 21 | 12 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 91.7 | 100.0 | 83.3 | 100.0 |
| Chwarterl meincnod | 2 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 58.3 | 28.6 | 25.0 | 54.5 |
| Chwarterl meincnod | 1 | 3 | 4 | 1 |
| Cymraeg iaith gyntaf | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwarterl meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwarterl meincnod | * | * | * | * |
| Mathemateg | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 21 | 12 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 83.3 | 100.0 | 91.7 | 90.9 |
| Chwarterl meincnod | 3 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 41.7 | 23.8 | 25.0 | 54.5 |
| Chwarterl meincnod | 2 | 4 | 4 | 1 |
| Gwyddoniaeth | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 21 | 12 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 91.7 | 100.0 |
| Chwarterl meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 33.3 | 23.8 | 16.7 | 54.5 |
| Chwarterl meincnod | 2 | 4 | 4 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarterl meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarterl meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarterl meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

dynodi'r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|--|-----------------|-----------------------|--|
| I feel safe in my school. | 52 | 52 100% | 0 0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 52 | 46 88% | 6 12% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 52 | 51 98% | 1 2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 52 | 51 98% | 1 2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 52 | 52 100% | 0 0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 51 | 50 98% | 1 2% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 52 | 52 100% | 0 0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 51 | 51 100% | 0 0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 52 | 42 81% | 10 19% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 52 | 51 98% | 1 2% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 52 | 34 65% | 18 35% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 51 | 43 84% | 8 16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

Ymateb i'r holiadur i rieni

dynodi'r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|--|--|---------------------------------|-----------------|-----------------------|---------------------------------------|------------------------------|--|
| Overall I am satisfied with the school. | 13 | 11 85% | 2 15% | 0 0% | 0 0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 13 | 11 85% | 2 15% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 13 | 11 85% | 2 15% | 0 0% | 0 0% | 0 | Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 13 | 9 69% | 4 31% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 13 | 7 54% | 5 38% | 1 8% | 0 0% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 13 | 8 62% | 5 38% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 13 | 8 62% | 5 38% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 13 | 7 54% | 3 23% | 2 15% | 0 0% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 9 69% | 3 23% | 0 0% | 0 0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 9 69% | 4 31% | 0 0% | 0 0% | 0 | Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 9 69% | 4 31% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 11 | 6 55% | 4 36% | 0 0% | 0 0% | 1 | Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 13 | 8 62% | 2 15% | 3 23% | 0 0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|--|---------------------------------|-----------------|-----------------------|---------------------------------------|------------------------------|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 11 85% | 2 15% | 0 0% | 0 0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 8 62% | 5 38% | 0 0% | 0 0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 13 | 9 69% | 4 31% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 11 | 7 64% | 3 27% | 0 0% | 0 0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 10 77% | 3 23% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 13 | 11 85% | 2 15% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

Atodiad 3

Y tîm arolygu

| | |
|------------------|-----------------------|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Samatha Vaughan | Enwebai |

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|-----------|----------|--------|-----|-----|-----|-----|------|-------|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|-----------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|--------------------|--|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.